





Croeso i'r rhifyn hwn o'ch papur newydd cymunedol, Cyswllt



Dros y chwe mis diwethaf, mae pandemig Coronafeirws wedi effeithio arnom ni mewn llawer o wahanol ffyrdd. Bu effaith y feirws yn ddinistriol ac mae'n bwysicach nac erioed ein bod ni'n gallu cefnogi ein gilydd.

Un thema sydd yn bendant wedi uno pobl yw ein gwerthfawrogiad o ymraddiad ac ymrwymiad staff y GIG sy'n parhau i ddarparu'r gofal, cefnogaeth a'r gwasanaethau rydym yn dibynnu arnynt.

Mae'r gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol a sefydliadau eraill wedi profi'n amhriiadwy yn ystod yr amser digynsail hwn. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu i gefnogi'r rhieni sy'n cysgodi ac unigolion bregus eraill a oedd ag angen cymorth.

Hoffwn hefyd ddiolch i nifer o staff y Cyngor sydd wedi gweithio bob dydd drwy'r pandemig hwn. Yn benodol, rwyf am sôn am ein staff llinell flaen, y rheini sydd wedi dosbarthu Offer Diogelu Personol i'n darparu'r gofal a'n staff gofal - maen nhw wedi bod yn anhygoel.

Er mwyn gallu ymateb i'r feirws hwn, rydym wedi datblygu cynlluniau adferiad gwydn yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Bydd llwyddiant hyn yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth a chronni ein hegri fel y gallwn, gyda'n gilydd, leihau lledaeniad y feirws. Mae gennym ni oll rôl i'w chwarae, gan weithio gyda llywodraeth Cymru i'n galluogi ni i lacio cyfyngiadau, tra ar yr un pryd reoli lledaeniad yr haint.

Nid yw Coronafeirws wedi mynd i ffwrdd; mae'n parhau i fod yma, ac mae'n bwysig ein bod ni'n defnyddio'n profiadu dros y chwe mis diwethaf i helpu i lunio trefniadau ar gyfer y dyfodol.

Gadewch i ni obeithio y byddwn yn gallu, wrth gadw'n ffyddlon at gadw pellter cymdeithasol a dilyn canllawiau'r llywodraeth pan a phryd y bydd sefyllfaoedd yn newid, y gallwn ddechre welyd i ryw fath o normalrwydd.

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i weithio y tu ôl i'r llinell gyda'n Hymgyngorwyr o Lywodraeth Cymru fel rhan o'n pecyn cefnogaeth statudol. Rydym wedi croesawu'r gefnogaeth hon a byddwn yn diweddarau ymhellach ar ein rhaglen drawsnewidiad yn ystod y misoedd sy'n dod.

I orffen, hoffwn longyfarch yn bersonol ein pobl ifanc ar eu llwyddiant diweddar gyda Safon Uwch a TGAU. Bu 2020 yn amser caled i ni i gyd, ond yn enwedig i'r myfyrwyr hynny sydd yn eu blwyddyn olaf o'r ysgol a'r coleg.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, rydym yn anelu'n uchel ar gyfer ein pobl ifanc. Rydym yn eu cefnogi yn eu dyhead i gyflawni ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn ffynnu nawr ac i'r dyfodol.

Cadwch yn ddiogel.

Kevin O'Neill

Y Cyngorydd Kevin O'Neill
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol

Digwyddiadau'r Lluoedd Arfog 2020

Ar 29 Chwefror, bu Trydydd Bataliwn y Cymry Brenhinol yn gorymdeithio trwy ganol y dref er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a nodi'r modd y derbyniodd y Gatrawd Ail-gadarnhau Rhyddid y Fwrdeistref Sirol yn 2011.

Cynhaliwyd gwasanaeth yng ngardd goffa Eglwys y Plwyf, Santes Tudful er mwyn coffau'r Rhingyll John Collins o'r Ffwsilwyr Cymreig a dderbyniodd y wobwr filwrol uchaf un, Croes Fictoria am ei ddewrder yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Coffau 75 o flynyddoedd ers Diwrnod VE Mai 2020

Gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful i drigolion ymuno â'r dathliad cenedlaethol i goffau Arwyr yr Ail Ryfel Byd a 75 o Flynyddoedd ers Diwrnod VE ar 8 Mai 2020. Yn sgil y pandemig, gwnaeth y Llew Brydeinig Filwrol gais i bobl nodi'r achlysur ac aros gartref. Cafwyd ddathliadau mewn gerddi gan ddilyn y canllawiau ymbellhau cenedlaethol.

Diwrnod y Lluoedd Arfog 27 Mehefin 2020

Cafodd baneri Diwrnod y Lluoedd Arfog a gomiswynwyd yn arbennig eu codi Ddydd Llun 22 Mehefin 2020 er mwyn dangos ein

nhw.

"Bu'r ychydig fisoedd diwethaf yn ddigynsail mewn llawer o ffyrdd. Roedd dathliadau'r diwrnod canlyniadau yn gwahanol, ond rwy'n gobeithio bod pob un o'n pobl ifanc wedi treulio peth amser i fyfyrwyr dros yr hyn maen nhw wedi ei gyflawni. Ar ran y Cyngor, hoffwn ddyddio pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol." Y Cyngor, Lisa Mytton, Aelod Cabinet ar gyfer Dysgu a Dirprwy Arweinydd CBSMT.

Canlyniadau Lefel- A a TGAU

"Da iawn i bob person ifanc ledled Merthyr Tudful a dderbyniodd eu canlyniadau Safon Uwch a TGAU ym mis Awst. Mae'r canlyniadau'n dyst i'r gwaith caled a gafwyd gan y myfyrwyr a hefyd staff yr ysgolion sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau bod ein pobl ifanc yn cyflawni'r gorau gallan



Covid-19: Profi, Olrhain, Amddiffyn

1. Ydych chi'n dangos symptomau COVID-19?

Peswch newydd a pharhaus, tymheredd uchel, newid yn eich gallu i flasu neu arogleuo, neu gollu'r gallu i flasu neu arogleuo yn llwyr.



2. Gofynnwch am brawf.

naill ai trwy drefnu apwyntiad yn un o'n canolfannau profi trwy ffôn y car, neu trwy archebu pecyn profi gartref yma: www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test



3. Os ydych chi'n cael prawf positif, dylech hunanynysu am 10 diwrnod.



4. Olrhain.

Gweithiwr gyda'n hollrhainwyr cysylltiadau i nodi'r bobl rydych chi wedi dod i gysylltiad â nhw er mwyn iddynt nhw allu hunanynysu. Bydd ein hollrhainwyr cysylltiadau yn eich ffonio chi o rif wedi ei guddio, felly cadwch tygad am yr atwad.



hymroddiad a'n cydnabyddiaeth o ddechrau wythnos y Lluoedd Arfog. Paratodd Ei Deilyngdod y Maer, y Cyngorydd Howard Barrett, yr Arweinydd, y Cyngorydd Kevin O'Neill ac Eiriolwyr y Lluoedd Arfog, Andrews Barry neges fideo er mwyn hyrwyddo'r digwyddiad blyneddol.

Coffau 75 o flynyddoedd ers Diwrnod VJ 15 Awst 2020

Cafodd gwasanaeth i goffau'r sawl a golodd eu bywydau yn Siapan ac i ddatlu 75 o flynyddoedd ers eu rhyddid ei gynnal ger Cofgolofn Rhyfel Pant, Ddydd Sadwrn 15 Awst 2020 am 11am. Gosododd Ei Deilyngdod y Maer, y Cyngorydd Howard Barrett, dorch ar rhan trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a gosododd Mr Whatley, dorch er coffau o'i dad a laddwyd yn Siapan. Mae ei enw ar y Gofgolofn.



Diogelu eich hun ac eraill

Diogelu Cymru gyda'n gilydd



GOLCHI DWYLO'N AML

Yn enwedig os ydych chi' wedi bod yn siopa, weithiwr cychwyn neu ar lin trwm o'wyo.



CADW PELLTER CYMDEITHASOL

Rhaid cadw dau fetr rhwngoch chi' o phobl eraill sydd ddim yn eich control estynedig.



GWISGO GORCHUDD WYNEB

Parhau golydd neu pan fo codw peillwr cymdeithasol yn anodd.



HUNANYNYSU

Amnewid gartref os oes genrych chi neu rywun eich canolfn symptomau, neu os ydych chi'n ddiolch o'r haint cysylltiadau yn golydd.



CAEL PRAWF

Ffônio 119 neu archebu brawf ar-lein ar unwaith os ydych chi' tymheredd uchel, peswch newydd parhaus, a/neu yn methu flasu neu arogle.

Am y diweddaraf ar gadw'n ddiogel, hunanynysu a phroffio, ewch i llyw.cymru/coronafeirws





Cefnogi busnesau Merthyr Tudful i ailymuno â'r trywydd iawn ar ôl y cyfnod clo

Mae Swyddogion Cyngor Merthyr Tudful wedi bod yn gweithio gyda busnesau lleol i geisio cyfyngu ar y difrod sy'n eu hwynebu o ganlyniad i gyfnod clo'r coronafeirws.

Yn ogystal â helpu cwmnïau i gael gafael ar grantiau gwerth £12m gan Lywodraeth Cymru, mae Timau Refeniw ac Adfywio Cymunedol y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn eu helpu i gynllunio adferiad trwy ddefnyddio holiadur i wirio iechyd eu busnesau.

Nodwyd bod mwy na 1,000 o fusnesau Merthyr Tudful â safleoedd wedi'u heffeithio gan y coronafeirws yn gymwys i gael cyllid ac wedi derbyn cyllid.

Yn ogystal â hynny, mae 120 o fusnesau wedi cymryd rhan mewn arolwg sy'n anelu at adeiladu darlun o effaith Covid-19 ar eu cynlluniau masnachu ac adfer, a byddir yn defnyddio'i ganlyniadau i bennu pa gefnogaeth bellach fydd ei hangen.

Roedd canran uchel o'r ymatebion hynny'n dod o fusnesau canol tref; Dywedodd 96% o'r ymatebwyr eu bod wedi dioddef colled incwm; Roedd gan 47% staff wedi'u gorchuddio; Roedd 66% wedi derbyn grantiau; ac roedd gan 27% gynlluniau adfer coronafeirws.

Dywedodd y Cyngorydd Andrew Barry, yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Llywodraethu: "Rydyn ni'n falch iawn ein bod ni wedi gallu ymateb yn gyflym a chael grantiau i'r rhai

sydd eu hangen."

Mae'r Cyngor yn gweithio ar gynigion eraill er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a bywiogrwydd y busnesau yng nghanol y dref ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben. Bydd eu ffyrdd o weithredu yn wahanol, ond mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau y gall masnachwyr barhau i weithredu mor normal â phosibl.

Un busnes lleol a dderbyniodd grant oedd Tatw's Lucy Lou's ym Mhontmorlais. Yn y llun yw perchennog Lucy Turner yn y gwaith.



Mae gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau bod canol y dref ar agor i fusnes ac yn ddiogel

Mae canol tref Merthyr Tudful yn gweithredu'n ddiogel unwaith eto, diolch i bartneriaeth a luniwyd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol, busnesau a'r heddlu.

Mae'r Cyngor, Calon Fawr Merthyr Tudful, Canolfan Siopa Santes Tudful a Heddlu De Cymru Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, wedi gwneud eu gorau glas i sicrhau bod siopwyr sy'n dychwelyd i ganol y dref yn teimlo'n ddiogel yno.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi cyfarpar diogelu personol gan gynnwys menig, hylifau diheintio dwylo, masgiau wyneb, feisorau a sticeri llawr, i fwy na 50 o fusnesau gan gynnwys manwerthwyr, trinwyr gwallt, tafarndai a chaffis.

Codwyd arwyddion a gosodwyd



marciau llawr ledled y dref i atgoffa pobl i gadw'u pellter. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud yn yr Orsaf Fysiau i gael gwared ar rwystrau er mwyn cynnal pellter cymdeithasol a llif y cerddwyr.

Mae swyddogion yr heddlu allan o gwmpas canol y dref, yn sicrhau diogelwch y cerddwyr ac yn helpu i gynnal pellter cymdeithasol. Maen nhw hefyd wedi dosbarthu hysbysadau rhybuddio i unrhyw gerbydau sy'n parcio neu'n gyrru trwy ardal y cerddwyr.

Fideo animeiddiedig yn cyflwyno neges entrepreneuriaeth

Fel rhan o'i brosiect cymorth ar gyfer darpar entrepreneuriaid, mae'r Cyngor wedi lansio fideo animeiddiedig hwyliog i hyrwyddo'r hyn y gall ei gynnig mewn ffordd syml a thrawiadol.

Mae Menter Gymunedol Merthyr Tudful yn siop un-stop ar gyfer pobl sydd â syniadau busnes newydd, gan ddarparu pecyn cymorth cyflawn i'w helpu i wireddu'u breuddwydion.

Wedi'i ariannu ar y cyd gan y Rhaglen Pontydd i Waith 2 a Sgiliau Gwaith i Oedolion 2, datblygwyd y Fenter Gymunedol i ysgogi menter ynghanol y cymunedau lleol.

Mae'r rôl wedi'i hymgorffori yn Nhîm Cyflogadwydd y Cyngor ac mae ganddo'r fantais o allu galw ar gefnogaeth gan ystod eang o gynlluniau cyflogadwydd fel Cymunedau ar gyfer Gwaith; Cymunedau ar gyfer Gwaith a Mwy; ac Anogaeth, Paratoi a Ffynnu (NET) etc.

Dywedodd Elliott Evans, y Swyddog Mentrau Cymunedol: "Deilliodd y syniad am y fideo o sgwrs a gawson ni wrth edrych ar ffyrdd o hyrwyddo mentrau cymunedol drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

"Fe gawson ni'r syniad o greu fideo

hyrwyddol wedi'i animeiddio a fyddai, yn syml iawn, yn tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i unrhyw un sydd eisiau cychwyn ei fusnes ei hun.

"Trwy ddefnyddio animeiddiad, roedden ni'n teimlo bod hyn yn dileu'r stigma fod busnes a menter ychydig yn frawychus ac yn fygythiol ac mai dim ond rhai pobl sy'n gallu cychwyn eu busnes eu hunain. Gall unrhyw un fod yn entrepreneur!

Dyluniwyd a chynhyrchwyd y fideo gan un o lwyddiannau'r prosiect ei hun. Dechreuodd Sarah Leanne Hicks ei busnes ei hun, sef

Merthyr Media, gyda chefnogaeth y Tim a MTEC.

Mae Merthyr Media yn gweithredu o'r Redhouse ac yn darparu gwasanaeth cyfryngau cyflawn ar gyfer busnesau newydd a sefydledig megis dylunio gwefan, ffotograffiaeth, cynhyrchu fideo, brandio a hysbysebu.

Mae Elliott ar gael i drafod eich syniadau busnes ac i'ch helpu ar eich taith i greu menter lwyddiannus. Mae croeso ichi gysylltu ag e trwy e-bostio elliott.evans@merthyr.gov.uk neu ffonio 07923 241356.



Dymchweliad yn nodi dechrau pennod newydd ar gyfer Stryd Taf a Stryd Cilgant

Mae dymchweliad dwy res o dai yn Ynys Owen yn nodi diwedd proses a reolwyd yn ofalus i adleoli preswylwyr i gartrefi newydd, o ardal sy'n beryglus o ran ei thuedd am lifogydd; nifer ohonynt mewn prosiect adfywio gwerth miloedd ar filoedd o bunnoedd.

Adeiladwyd Stryd Taf a Stryd Cilgant ar orliffdir yn y 1940au ac maen nhw wedi dioddef llifogydd dro ar ôl tro dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Bellach, mae'r tai yn cael eu dymchwel dros gyfnod o dri mis.

Symudodd y preswylwyr allan o'r ddwy stryd dros gyfnod o dair blynedd o 2016, a bu'r gwaith yn parhau fyth ers hynny i gydymffurfio â mesurau ecoleg a bioddigolwch fel diogelu ystlumod sy'n clwydo ac ail-leoli pridd a llygrwyd gan lysiau'r dial, a gaiff ei drin bellach yn ôl rhaglen chwistrellu dros dair blynedd.

Tra bo 23 o deuluoedd dan denantiaeth y gymdeithas dai wedi symud i mewn i dai a adeiladwyd yn bwrpasol yn Aberfan pan gawsant eu cwblhau yn 2017, mae nifer o'r preswylwyr oedd ar ôl wedi symud yn ddiweddar i ddatblygiad tai gwerth £25 miliwn, Ymyl Yr Afon, a gafodd ei

adeiladu fel rhan o raglen adfywio ar raddfa fawr gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyn safle Pwll Glo Ynys Owen.

Gwnaeth y prosiect greu 110 o gartrefi ar gyfer gwerthiant ar y farchnad agored a 43 o dai fforddiadwy dan berchnogaeth Cymdeithas Tai Merthyr Tudful.

Dywedodd Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelwch y Cyhoedd, y Cyngorydd Geraint Thomas: "Cafodd Stryd Taf a Stryd Cilgant eu hadeiladu ar orliffdir. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr ardal yn un heb fesurau diogelu rhag llifogydd sylweddol ac roedd wedi cael llifogydd difrifol ar sawl achlysur. Roedd y tai'n berygl i fywyd ac iechyd gan fod lleithder y tu fewn a'r tu allan iddynt.

"Roeddem ni am gadw gymaint o'r gymuned – y teuluoedd a'r cymdogion – gyda'i gilydd ag oedd yn bosibl, felly cawsant y cyfle cyntaf i symud i mewn i'r cartrefi newydd. Mae'r holl blant yn parhau i allu mynychu Ysgol Gynradd Aberfan.

Dywedodd Karen Courts, Prif Weithredwr Cymdeithas Dai Merthyr

Tudful: "Er bod y cymunedau yn Strydoedd Taf a Chilgant yn gymunedau sefydledig, iechyd a llesiant y preswylwyr a'n tenantiaid oedd ein blaenoriaeth gyntaf.

"Roeddem wrth ein boddau pan roddwyd cydnabyddiaeth mewn sawl gwobr i'r prosiect cymunedol cyntaf a'r cartrefi a adeiladwyd i 23 o deuluoedd yn 2017. Gwnaeth nifer o'r teuluoedd oedd ar ôl symud i ffwrdd neu ddod o hyd i'w llety arall eu hunain, ond roeddem yn falch iawn o groesawu yr olaf o'n teuluoedd Taf a Chilgant i'w cartrefi pwrpasol newydd yn Ymyl Yr Afon."

Dywedodd un o breswylwyr y cartrefi newydd, Ruth Williams sy'n denant i Gymdeithas Tai Merthyr Tudful: "Rydym wedi bod yn hapus yn ein cartref dros dro ond doedden ni methu aros i symud adref i Ynys Owen. Rydym ni'n ôl yn awr, a dwi'n ei garu e.

"Mae'r tŷ newydd yn hyfryd ac ron i'n gallu dewis y carped, llawr lamedig a'r bleindiau. Mae'n braf fod yn ôl ble mae gen i gefnogaeth oddi wrth deulu a ffrindiau, sydd wedi bod yn fendith yn ystod y cyfnod clo."

Tai newydd yn Ymyl Yr Afon



Cefnogi busnesau Merthyr Tudful i arallgyfeirio yn yr awyr agored

Cyn bo hir, gallai canol tref Merthyr Tudful fod yn edrych yn wahanol iawn, gyda bwyta ac yfed yn yr awyr agored yn chwarae rhan amlwg ochr yn ochr â'r profiad siopa arferol.

Mae swyddogion y cyngor wedi treulio'r haf yn dyranu grantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau sydd am gynnig bwyd a diod yn yr awyr agored.

Mae Grant COVID-19 ar gyfer Offer Awyr Agored yn gynllun gwerth £5.3m a'i nod yw helpu canol trefi i adennill tir yn sgil y Coronafeirws, a bydd yn sicrhau bod cyllid hyd at £10,000 ar gael i gefnogi adeiladau trwyddedig sydd am arallgyfeirio o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig.

"Rydyn ni'n gwybod bod canol trefi yn wynebu heriau enfawr yn sgil Covid-19, ond rydyn ni'n gobeithio y bydd y math hwn o

gefnogaeth yn eu helpu nid yn unig i oroesi ond i ffynnu." meddai'r Cyngorydd Geraint Thomas, yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelwch Cyhoeddus.

"Mae tywydd Cymru yn enwog am fod yn arw, ond bydd y grantiau hyn yn caniatáu i adeiladau osod gorchuddion fel adlenni, canopiau ac ymbarelau i gysgodi'r cwsmeriaid. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y rhai sydd â'r lle ar gyfer hyn yn ymgeisio am y grant ac yn helpu i greu rhyw fath o gymdeithas gaffi ar balmentydd Merthyr!"

Bydd y Cynllun Offer Awyr Agored yn talu am offer megis adlenni, byrddau a chadeiriau, gwresogyddion, sgriniau, bolardiau, planteri, cynlluniau seilwaith gwyrdd bach, cyflenwad trydan a goleuadau, ac yn defnyddio adeiladau gwag dros dro ac yn sefydlu marchnadoedd lleol.



Diweddariad ar Storm Dennis



Y difrod a achoswyd gan Storm Dennis ym Merthyr Tudful

Yn Chwefror 2020, trawodd Storm Dennis y DU ac achosodd ddinistr i lawer. Ym Merthyr Tudful, cafodd dros 200 o eiddo eu heffeithio gan lifogydd ac yn oriau mân 16 Chwefror, gwnaethpwyd datganiad ei fod yn ddigwyddiad difrifol. Cafodd ystafell reoli brys ei sefydlu yn y ganolfan ddinesig a sefydlwyd canolfannau gorffwys yng nghanolfannau hamdden Merthyr Tudful ac Aber-fan. Anfonwyd Swyddogion a Chynghorwyr i'r mannau hynny a effeithiwyd arnynt fwyaf er mwyn cynorthwyo â'r gwaith glanhau.

Yn ystod y diwrnodau a'r wythnosau canlynol, derbyniwyd cymorth ariannol o £500 gan yr awdurdod lleol o grant Cynllun Caledi yr Awdurdod Lleol a rhyddhad Treth Cyngor ac roedd Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru (CCD) ar gael i'r sawl a effeithiwyd.

Roedd fodd i ni hefyd gynnig cymorth ymarferol i'r sawl oedd ei angen gan gynnwys casgliadau gwastraff ychwanegol, casgliadau eitemau mawr, am ddim, cyngor ar geisiadau yswiriant a chymorth â cheisiadau grant.

Ym mis Mai, anfonwyd llythyr at berchnogion eiddo a gafodd eu heffeithio â gwybodaeth ar sut i ddygymod â chanlyniadau llifogydd a sut i baratoi petai hyn byth yn digwydd eto.

Gan bod cyfyngiadau'r clo mawr yng Nghymru yn awr yn cael eu llacio ac yn caniatáu i ni

ailgychwyn gweithrediad normal, roeddem am roi diweddariad i chi ynghylch sut y mae'r gwaith adfer yn mynd rhagddo yn ogystal â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

O ganlyniad i Storm Dennis, dynodwyd cyfanswm o 47 o gynlluniau atgyweirio ym Merthyr Tudful, sydd gwerth dros £8.6 miliwn.

Yn sgil maint y gwaith rydym wedi dyfeisio cynllun cwblhau tair mlynedd o hyd sydd wedi ei rannu'n dri cam ac sydd wedi eu blaenoriaethu yn seiliedig ar risg llifogydd y dyfodol:

- Mae Cam 1 ar waith ar hyn o bryd ac mae 5 cynllun eisoes wedi eu cwblhau ac 14 arall ar fin dechrau yn ystod yr wythnosau nesaf;
- Bydd Cam 2 yn cael ei weithredu yn 2021;
- Bydd Cam 3 yn cael ei weithredu yn 2022.

Mae Pandemig Covid-19 wedi golygu y gwelwyd oedi cyn i rai o'r cynlluniau gael eu gweithredu, fodd bynnag, mae'n swyddogion yn gweithio'n galed i gwblhau cymaint o gynlluniau â phosib cyn misoedd y gaeaf.

Mae'r gwaith atgyweirio'n amrywio'n fawr ac yn cynnwys:

- Atgyweirio cwlffertau
- Ailosod glannau afonydd
- Gosod sgriniau sbwriel a monitorau llifogydd ar gwlfertau amrywiol
- Cynyddu capasiti cyrsiau dŵr
- Diogelu pontydd
- Sefydlogu ardaloedd lle y bu

tirlithriad

Troedryhiw

Profodd pentref Troedryhiw ddinistr llifogydd mawr yn ystod y stormydd ac apwyntiodd CBSMT ymgynghorydd arbenigol i weithredu modeli llifogydd o amgylch Cludfa Ddŵr Plymouth er mwyn pennu'r achos.

Dynododd ddadansoddiad o Gludfa Ddŵr Plymouth fod y llifogydd yn Nhroedryhiw wedi digwydd yn sgil lefelau uchel Afon Taf a achosodd i ddŵr lifo yn ôl i'r Gludfa. Methodd y Gludfa Ddŵr ymdopi â chyfaint y dŵr yn ystod y digwyddiad hwn sy'n cymryd lle 1 waith pob 200 mlynedd a llifodd y dŵr dros y glannau. Cyfrannodd Afon Taf felly 'n sylweddol at y llifogydd yn yr ardal yn ystod Storm Dennis.

I'r dwyrain o'r pentref, lleolir cwlffert carreg sydd yn 100 oed ac rydym yn argymhell ein bod yn ei adnewyddu. Apwyntiwyd ymgynghorwyr o Capita i gynllunio a datblygu'r broses. Bydd gan y cwlffert newydd gapasiti ychwanegol a fydd yn ystyried newid hinsawdd ac yn sicrhau y bydd yn gallu cynnal glaw trwm yn y dyfodol.

Tirlithriadau

Cafwyd wyth tirlithriad yn ystod y stormydd ac o achos eu natur cymhleth, mae cwmni geodechnegiol, arbenigol yn asesu pob un ohonynt ac yn argymhell gwaith atgyweirio. Nid oedd yr un tirlithriad yn



gysylltiedig â'r un pwll glo ond rydym wedi bod yn cydweithio â'r Awdurdod Glo sydd wedi archwilio bron i 60 pwll. Mae'r mwyafrif o archwiliadau'n dynodi mai bach iawn yw'r gwaith sydd ei angen ar nifer fechan iawn o byllau.

Rydym wedi ysgrifennu'n

uniongyrchol at drigolion a pherchnogion busnes a gafodd eu heffeithio gwaethaf gan y llifogydd ac rydym wedi sefydlu tudalennau dynodedig ar y we lle y byddwn yn postio gwybodaeth ar y gwaith a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol: merthyr.gov.uk/stormrecovery

Oeddech chi'n gwybod?

Roedd Storm Dennis[a] yn Chwefror 2020 yn Storm Wynt Ewropeaidd sef un o'r seiclonaau alldrofannol mwyaf a gafodd eu cofnodi erioed. Cafwyd gwasgedd canolog o 920 millibar (27.17 modfedd o fercwri.)



GLANHEWCH OS GWELWCH YN DDA



merthyr.gov.uk/coronavirus
Covid 19 - Cymorth i Breswyllydd



HWRC Winter Opening hours

Nodyn i'ch atgoffa bydd eich Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu lleol yn newid i'w horiau gweithredu gaeaf o ddydd Sul 1at o Dachwedd.

Bydd y safleoedd yn Dowlais ac Aberfan ar agor rhwng 9.00yb a 4.30yp, gyda'r mynediad olaf am 4.20yp.

Hoffem ddiolch i'r cyhoedd am eu hamynedd a'u help yn ystod y cyfnod cloi. Diolch hefyd i'r criwiau, y Wardeiniaid a'n staff Canolfan Gwastraff ac Ailgylchu a chwaraeodd eu rhan i gadw'n ddiogel, cadw'r cyhoedd yn ddiogel a sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth gwastraff yn parhau i breswylwyr yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

Siop Ail-ddefnyddio

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y byddwn yn agor siop Ail-ddefnyddio newydd ym Mhentrebach.

Bydd y siop yn darparu alfa i breswylwyr brynu eitemau y gellir eu hailddefnyddio am brisiau fforddiadwy, a fyddai fel arall wedi cael eu hailgylchu neu wedi mynd i gyfleuster ynni o wastraff.

A chynyddu'r cyfle yn sylweddol i aildddefnyddio eitemau a adnewyd yn y ddwy Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu.

Ar adeg argraffu, nid yw'r dyddiad agor wedi'i gwblhau, felly cadwch lygad ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o wybodaeth yn fuan!



Ailgylchu Cardbord

Mae yna derfyn i faint y cardbord y gellir ei roi trwy agoriad y cerbyd casglu, felly cofiwch ddilyn y cyngor isod wrth roi cardbord allan i'w gasglu:

Bocsys troli - dylid gosod pob darn o gardbord yn y bocs troli cywir. Dylid torri darnau mawr o gardbord i fyny a'u rhoi yn y cynhwysydd hwnnw.

Bocs Ailgylchu - dylid torri darnau mawr o gardbord a'u rhoi yn y bocs. Lle bo'n bosibl, ceisiwch osod poteli gwydr a jariau ar ben y cardbord fel ei fod yn hawdd i'w adnabod gan ein criwiau wrth ei.

ddidoli ar ymyl y palmant
Diolch.

Sut allaf i ailgylchu fy ngwastraff?

Yn wythnosol



Pob pythefnos



GLASS RECYCLING

Cadwch eich gwydr ar wahân i'ch cerdyn drwy ei osod ar ben y cerdyn neu mewn blwch ar wahân



CBS Merthyr Tudful yn galw ar bobl leol: Bydd Wych, Ailgylcha. Gyda'n gilydd gallwn gael Cymru i rif un!

Er bod Cymru'n wlad fach, pan mae'n dod i ailgylchu, rydyn ni'n cystadlu gyda'r goreuon. Rydyn ni'n drydydd ar restr ailgylchwyr gorau'r byd, a nawr mae CBSMT yn cefnogi'r ymgyrch Cymru gyfan i'n cael ni i'r rhif un.

Dros y degawd diwethaf, mae ailgylchu yn Merthyr Tudful wedi ffynnu. Rydyn ni bellach yn ailgylchu bron 65% o'n gwastraff, i fyny o 34.43% yn 2010. Ond er mwyn helpu Cymru i gyrraedd y brig, mae angen i ni wneud mwy nag erioed, fel y mae y Cyngh. David Hughes yn esbonio:

"Mae ailgylchu bellach yn ailnatur yn Merthyr Tudful ac mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n ailgylchu bob wythnos. Rydyn ni'n ailgylchu ein croen ffrwythau a llysiau, plisgyn wy, bagiau te a gwastraff bwyd arall yn ein cadis gwastraff bwyd; yn ailgylchu o bob ystafell yn y cartref ac yn ailgylchu'r eitemau lletchwith hynny fel caniau aerosol gwag."

"Fe ddylen ni fod yn falch o'n

hymdrechion ailgylchu, ond rhaid i ni ddal ati â'n gwaith da. Gadewch i ni barhau i ailgylchu popeth allwn ni o bob twll a chornel o'r cartref a helpu Cymru i gyrraedd rhif un."

I ddysgu mwy am yr ailgylchwyr gwyh, ewch i www.cymruynailgylchu.org.uk, cadwch lygad am yr hysbysebion ar y teledu, ar fysiau ac ar hysbysfyrddau ac yn y cyfryngau cymdeithasol ledled Cymru neu ymunwch yn y sgwrs gan ddefnyddio'r hashnod #ailgylchwyrwyh

Awgrymiadau ar sut i gael Cymru i rif un

- Ailgylchu ein gwastraff bwyd yw un o'r ffyrdd hawsaf o roi hwb i'n cyfradd ailgylchu. Rhownch unrhyw wastraff bwyd – waeth pa mor fach – yn eich cadid bwyd i sicrhau ei fod yn cael ei gasglu bob wythnos

- Nid dim ond yn y gegin mae ailgylchu – cofiwch ailgylchu yn eich ystafelloedd eraill hefyd. Byddwch chi'n synnu faint o wastraff ystafell ymolchi

BYDD WYCH AILGYLCHA

fel poteli siampw, cyflyrdd, sebon a gel cawod y gellir eu hailgylchu

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod bod modd ailgylchu poteli dŵr, caniau, a phapur a chardbord, ond cofiwch y gallwch chi ailgylchu eitemau mwy anghyffredin hefyd, fel caniau aerosol gwag. Ac os nad ydych chi'n siŵr allwch chi neu na allwch ei ailgylchu, ewch i <https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/>

- Cofiwch wasgu caniau, potiau, tybiau a chynhwysyddion i arbed gofod yn eich bag, bin, bocs neu gadis ailgylchu. A rinsiwch nhw'n gyflym cyn eu hailgylchu – does dim angen eu dal o dan y tap, bydd eu swilio nhw'n gyflym yn y bowlen golchi llestri yn gwneud y tro'n iawn

- Er mwyn i Gymru gyrraedd rhif un, rhaid i ni i gyd chwarae'n rhan. Mae hynny'n golygu lledaenu'r gair ar y cyfryngau cymdeithasol trwy rannu eich lluniau a'ch awgrymiadau ailgylchu gan ddefnyddio'r hashnod #ailgylchwyrwyh

MAE'R RHAN FWYAF O BOBL
MERTHYR TUDFUL YN AILGYLCHU

CER AMDANI GYDA
GWASTRAFF
BWYD



Merthyr Tudful yn ailgylchu
Merthyr Tydfil recycles



Y genhedlaeth iau yn ganolog i ‘Gynllun Cyfarthfa’ Merthyr Tudful

Rhaid i'r genhedlaeth iau fod yn ganolbwynt i'r cynlluniau i er mwyn llwyddo i drawsffurfio Ardal Treftadaeth Cyfarthfa Merthyr Tudful.

Dyma'r neges gan dîm o ymgynghorwyr sy'n gweithio ar ddatblygu'r cynllun 25 mlynedd o hyd er mwyn trawsffurfio asedau hanesyddol helaeth Merthyr Tudful a hynny yn dilyn bron i 60 o gyfarfodydd ymgynghorol a gweithdai yn y fwrdeistref sirol.

Cafodd cyfarfodydd a gweithdai creadigol eu cynnal â disgyblion ac athrawon cynradd ac uwchradd, myfyrwyr a darlithwyr coleg, grwpiau cymunedol, swyddogion y Cyngor Bwrdeistref Sirol, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sefydliad cadwriaethol, CADW.

“Rydym wedi siarad â thrawstoriad eang o grwpiau, sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd,” meddai Jonathan Shaw, Arweinydd y Prosiect o Benseiri Ian Ritchie (iRAL). “Mae parodwydd pawb

i ymgysylltu â ni wedi bod yn eithriadol.

“Rydym wedi cael trafodaethau gonest ac agored â chyfranogwyr ynghylch Cyfarthfa, Merthyr Tudful, ei hanes, amgylchedd, diwylliant a dyfodol y dref. Mae balchder mawr yn y dref, anwyldeb tuag at ei hanes a brwdfrydedd i esgor ar newid. Ni allem fod wedi dymuno gwell deilliant.”

Dyweddodd Mr Shaw ei fod yn brosiect hir dymor a bod “rhaid i leisiau, gweithredoedd a chyfranogiad y genhedlaeth iau fod yn rhan o'i ffurfio.”

Ychwanegodd: “Mae gan genedlaethau'r dyfodol ran fawr yn sicrhau eu bod yn creu effaith arwyddocaol a dychmygus, nid yn unig yn y ffordd y gall hanes a diwylliant y dref gael eu dehongli ond hefyd wrth ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a sicrhau amrywiaeth greadigol.

Dyweddodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod o'r Cabinet ar gyfer

Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd fod cyfoeth asedau diwylliannol Merthyr Tudful yn cynnwys 223 o adeiladau rhestredig. Mae un ohonynt, sef Castell Cyfarthfa yn perthyn i gategori Gradd 1 ac 'o ddiddordeb cenedlaethol, eithriadol,' 12 ohonynt yn perthyn i gategori Gradd 2 a 48 ohonynt yn Henebion Cofrestredig.

Dyweddodd i benseiri Ian Ritchie gael eu dewis gan y Cyngor a hynny ar y cyd â Chomisiwn Dylunio Cymru i arwain y tîm i ddatblygu Cynllun Cyfarthfa. Nid yn unig yw hyn yn cynnwys Castell Cyfarthfa a'i barc 190 erw ond hefyd yr ardal sydd i'r gorllewin o afon Taf sy'n cynnwys ffwrneisi hanesyddol.

“Cytunwn fod angen i'r genhedlaeth iau chwarae rôl arweiniol yn y Cynllun - wedi'r cyfan, nhw fydd yn manteisio ohono a gobeithio y byddan nhw'n warcheidwaid y cyfleoedd a ddaw yn ei sgil.”

CYNGOR AR FLAEN Y GAD GYDA'I WELLIANNAU CYFFROUS I DRAFNIDIAETH

Dyfarnwyd £6.3m i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful er mwyn rheoli datblygiadau trafnidiaeth cyffrous ar draws De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys y prosiect Metro a thrydaneiddio bysiau a thacsis.

Mae'r Cyngor yn rheoli'r ddau gynllun ar ran Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol. Ym Merthyr Tudful, bydd yr arian yn cefnogi datblygiad gorsaf reilffordd newydd ym Mhentre-bach a gwefrydd trydan ar gyfer bysiau a thacsis yn yr orsaf fysiau newydd.

“Mae'r Cyngor yn falch iawn o fod ar flaen y gad yn cyflawni gwelliannau trafnidiaeth ar hyd a lled y rhanbarth ac mae'n gwneud hynny trwy reoli cyllid y Rhaglenni sy'n ymwneud â Gwella'r Metro a Hyrwyddo Cerbydau Allyriadau Isel Iawn,” meddai Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Kevin O'Neill.

Ychwanegodd: “Rydym ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar gynlluniau ar gyfer yr orsaf reilffordd newydd a'r cyfleuster parcio a theithio strategol ym Mhentre-bach. Mae Trafnidiaeth Cymru, ar ran y Cyngor a Llywodraeth Cymru, hefyd yn cynnal

astudiaethau dichonoldeb ar seilwaith presennol y brif orsaf reilffordd sef y llinell, y platfform a'r adeilad, a fydd yn ategu ac yn gwella'r buddsoddiad sylweddol yn Rhwydwaith Prif Linellau'r Cymoedd a'r Orsaf Fysiau newydd ym Merthyr Tudful.”

Cyhoeddodd yr Awdurdod Trafnidiaeth ei fod wedi llwyddo i gael £5m gan Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Metro De-ddwyrain Cymru a Metro Plws, sy'n cynnwys ystod o brosiectau fel Gorsaf Pentre-bach.

Dyfarnwyd £1.3m pellach o Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i ddarparu seilwaith cerbydau trydan at ddefnydd y cyhoedd, tacsis a llogi preifat, ynghyd â bysiau mewn gwahanol leoliadau a hybiau trafnidiaeth ledled y rhanbarth.

Roedd Cyngor Bwrdeistref y Sir wedi gwneud cais ar ran yr Awdurdod Trafnidiaeth am y ddwy set o gyllid a bydd yn rheoli'r ddau gynllun.

Gellir gweld y manylion llawn ar wefan yr Awdurdod Trafnidiaeth yma <https://bit.ly/3cWER3c> ac yma <https://bit.ly/2MQEmNC>

Hwb i gynlluniau'r synagog

Mae cynlluniau i droi Synagog Merthyr Tudful yn ganolfan dreftadaeth Iddewiaeth Cymru a lleoliad diwylliannol wedi cymryd cam ymlaen o ganlyniad i grantiau oddi wrth Cadw – asiantaeth dreftadaeth Llywodraeth Cymru – a thri phrif sefydliad elusennol.

Mae arian ar gyfer yr atgyweiriadau sydd angen eu gwneud ar frys i'r adeilad hefyd wedi ei sicrhau oddi wrth The Pilgrim Trust, GRoW@Annenberg a leolir yn Los Angeles ac Ymddiriedolaeth Elusennol Philip King.

Mae'r adeilad carreg rhestredig Graddfa II a gynlluniwyd yn ôl arddull Adfywiad Gothig, wedi bod yn wag ers 2006 ac roedd angen atgyweirio strwythurol ar frys arno ar ôl ei brynu gan y Sefydliad Dros Dreftadaeth Iddewig, y llynedd.

Cytunodd y comediwr David Baddiel a'r biliwrydd o ddyngarwr, Syr Michael Moritz ill dau, fod yn noddwyr i'r prosiect.

Dyweddodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: “Mae'r Cyngor wedi bod mewn trafodaethau ers tro gyda'r Sefydliad Treftadaeth Iddewig ynghylch dyfodol y Synagog.

“Mae ein swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r Sefydliad i ddarparu cefnogaeth a chynghor, a byddant yn parhau i wneud hynny drwy gydol y prosiect adferiad.

“Mae adeilad y Synagog yn dirnod amlwg oddi fewn i Ardal Gadwraeth Thomastown ac yn rhan bwysig iawn o dirlun hanesyddol canol y dref.

“Felly rydym ni wrth ein boddau fod yr arian wedi cael ei ddiogelu er mwyn sicrhau fod dyfodol disglair iawn o'i flaen – ac y daw'n nodwedd arall yn yr hyn rydym yn ei gynnis i dwristiaid, sy'n cynyddu o hyd.”



Datblygiad yr orsaf fysiau yn weladwy i bawb

Flwyddyn ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, mae Gorsaf Fysiau newydd Merthyr Tudful yn dechrau edrych yn orffenedig, gyda'r ffyrntiad gwyrdd a'r cladin cerrig bron wedi'u cwblhau.

Erbyn hyn, gall defnyddwyr y dyfodol, gan gynnwys gweithwyr fel gwywyr bysiau, perchnogion caffis, yr heddlu a'r cyhoedd, weld yr adeilad yn ymfurfio.

“Bydd gwaith ar y ffasad gwyrddog yn helpu i wneud yr adeilad yn ddiddos,” meddai Ross Williams, y Rheolwr Prosiect ar gyfer y prif gontractwr Morgan Sindall Construction. “Mae'r parwydd mewnol yn dod yn eu blaenau, gan greu lleoedd sy'n helpu i roi siâp go iawn ar yr adeilad.

“Mae'r cynnydd wedi bod yn dda iawn dros yr ychydig fisoedd diwethaf - mae gennym 60 i 70 o weithwyr ar y safle

ar gyfartaledd ar unrhyw un adeg, a byddwn yn parhau i gynyddu cyflymder a gweithgaredd wrth i'r prosiect ddatblygu.

Dyweddodd Geraint Thomas, yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd: “Ar ôl blwyddyn ar y safle, gan gynnwys yr holl waith sylfaenol oedd ei angen cyn hyd yn oed dechrau ar yr adeiladu, mae'n gyffrous iawn gweld argraff yr arlunydd yn dod yn fyw.

“Mae'n ddyluniad hyfryd sy'n llwyddo i ymdoddi i'r amgylchedd a denu'r llygad – mae'r waliau a'r cladin o gerrig glas naturiol Pennant, ac mae'r to yn dilyn proffil Bannau Brycheiniog yn y pellter.

“Mae Morgan Sindall Construction yn gwneud gwaith rhagorol ac edrychwn ymlaen at garreg filltir nesaf y

Amgylcheddwr i oruchwyllo prosiect adfer Parc Taf Bargoed

Mae amgylcheddwr o Awstralia wedi cael ei hapwyntio i oruchwyllo'r gwaith uchelgeisiol i adfer tir a dyfrffrydd sy'n amgylchynu un o fannau gwyrdd mwyaf prydfwerth Merthyr Tudful.

Mae Rachel Morton wedi cael ei hapwyntio i reoli Prosiect Adfer Dalgylch Taf Bargoed, menter lanhau gwerth £½ miliwn a'i nod yw adfer glannau'r afon a chynefinoedd lleol gan amddiffyn rhag erydiad a sicrhau fod bioamrywiaeth a systemau eco'r ardal yn gynaliadwy.

Ar waelod ardal y dalgylch, arferai safle 140 hectar Parc Bargoed fod yn safle tri hen bwl glo ac mae gwaith adfywio wedi trawsnewid y



parc yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt.

Onid mae 3.6 hectar o lynnoedd y parc wedi cael eu heffeithio gan silt a gwaddod sy'n cael effaith ar y gymuned leol; ar ddigwyddiadau, gweithgareddau hamdden a hyfywedd economaidd y parc.

Bydd y prosiect yn defnyddio mesurau fel plannu coed, ffensio a newidiadau i wely a glannau'r afon er mwyn gostwng lefelau silt, gwella cynefinoedd a lleihau'r risg o lifogydd i lawr yr afon.

Y flwyddyn ddiwethaf, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful grant, gwerth £417,000 ar gyfer y prosiect gan Cymunedau Gwledig, Llywodraeth Cymru - Cynllun Rheoli Cynaliadwy, Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a ariannir gan y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad Gwledig a gan Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y cyllid ar gyfer cyfanswm costau'r prosiect o £507,287, a derbyniwyd £60,000 gan y Cyngor a £30,000 gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Clywodd y Cynghorwyr fod ardal dalgylch yr afon wedi bod yn 'rhan bwysig o fywydau pobl, ers cenedlaethau' ac y byddai ffermydd lleol, busnesau hamdden a chymunedau

Trelewis, Treharris a Bedlinog yn fuddiolwyr allweddol.

Mae Rachel wedi ei chymhwyso mewn Astudiaethau Amgylcheddol Awstralaidd ac yn astudio ar hyn o bryd ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol Uwch mewn Rheolaeth Gadwriaethol yr Amgylchedd. Cyn hyn, bu'n gweithio ar raglenni a ariannwyd gan grantiau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a bu'n rheoli Prosiect Gweithredu Economi Gwledig sy'n gronfa grant gwerth £1.7 miliwn ar gyfer busnesau gwledig. Yn ei amser hamdden, mae'n wirfoddolwraig amgylcheddol ym Mharc Gwledig Bryngarw ac mewn coetiroedd lleol.

Dyweddodd Rachel y byddai gwaith ar y prosiect 'Adfer yr Afon' yn golygu ymgysylltu â thirfeddianwyr lleol, cominwyr, preswylwyr, busnesau ac ysgolion a'u hannog i gymryd rôl fel 'gwarcheidwaid cymunedol.'

“Rydym yn gobeithio gweld pobl leol yn cyfrannu mewn arolygon sy'n ymwneud â'r afon ac mewn gweithgareddau gwirfoddol,” ychwanegodd. “Mae afonydd De Cymru yn rhan mwr bwysig o hanes yr ardal ac yn allweddol ar gyfer y dyfodol.”

Mae'r prosiect yn fenter gydweithredol sydd

hefyd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Afon De Cymru, Cyfeillion Parc Taf Bargoed, Partneriaeth Bioamrywiaeth Merthyr (De Cymru Cyf, Cymdeithas Cominwyr Gelligaer a Merthyr, Clwb Canŵio Aber-fan, Canolfan Rock UK Summit Centre, Cymdeithas Bysgota Taf Bargoed, Ymddiriedolaeth Ddatblygu Taf Bargoed, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Dyweddodd Leila Thornton o Cyfoeth Naturiol Cymru: “Rydym yn croesawu apwyntiad Rachel ac rydym yn falch iawn i fod yn bartner yn y prosiect cyffrous hwn a fydd yn gwella'r amgylchedd ac ansawdd yr afon a'r llyn er mwyn i gymunedau lleol eu mwynhau.”

Dyweddodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod o'r Cabinet ar gyfer Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd: “Rydym yn hynod falch i fod wedi apwyntio Rachel, sydd â chymaint o brofiad a brwdfrydedd am yr amgylchedd ac mae'n fenter hollbwysig.”

“Mae'n brosiect cymunedol a fydd yn cynnwys cymaint o bobl â phosib sydd â chysylltiad â dalgylch yr afon gan ddysgu am bwysigrwydd afonydd iach a bioamrywiaeth ynddynt a fydd yn sicrhau cynaliadwydd am flynyddoedd lawer i ddod.”

Prosiect i ddiogelu Comin hanesyddol a ‘hanfodol’ sy'n rhedeg drwy ddwy sir

Mae partneriaeth a grëwyd i ddiogelu comin hanesyddol Comin Merthyr a Gelligaer wedi lansio cyfres o arfau ymgysylltu â'r cyhoedd â'r nod o annog pobl i barchu 'ysgyfaint gwyrdd hanfodol y cymoedd'.

Mae Prosiect Tirwedd y Comin yn gweithio gyda Phartneriaeth Gelligaer a Merthyr, a sefydlwyd yn 2019 i ddod â'r canlynol ynghyd: tirfeddianwyr, porwyr, cyrff statudol a sefydliadau allweddol i fynd i'r afael â, ac archwilio'r cyfleoedd sy'n effeithio ar y Comin.

Mae gwefan newydd ar gael www.gmcommon.org, taflen wybodaeth, cyfrif Twitter a thudalen Facebook, yr oll wedi eu hanelu at addysgu a chodi proffil y comin.

Yn ddiweddar bu staff y Prosiect ac aelodau o Dîm Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, yn cyflenwi taflenni i Fedlinog sydd ar y ffin â'r comin, gan esbonio i aelodau o'r cyhoedd beth yn union yw ystyr tir comin a'r hyn maen nhw'n cael ei wneud arno.

“Mae'r daflen yn esbonio sut y mae'r Comin yn hanfodol ar gyfer cefnogi'r amaethyddiaeth leol a'r gymuned wledig ac y mae'n gartref i ddigonedd o fywyd gwyllt, gan gynnwys y Barcud eiconig a'r Gornchwiglen sydd o dan fgythiad,” dywedodd Aelod Cabinet y Cyngor Bwrdeistref Sirol dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd y Cynghorydd Geraint Thomas.

“Yn anffodus, y mae'n wynebu lefelau

uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan leiafrif o bobl, sy'n cael effaith groes. Nod y prosiect hwn yw helpu i ddiogelu'r Comin drwy ddilyn y rheolau a'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r tir comin nad yw pawb yn ymwybodol ohono.”

Mae'r diffyg ymwybyddiaeth a pharch wedi arwain at weithgareddau anghyfreithlon fel grru oddi ar y ffordd gan beri erydiad, amharu ar fywyd gwyllt ac anafu anifeiliaid; pori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod; peidio â rhoi cŵn ar dennyn fel eu bod yn amharu ar adar sy'n nythu ar y ddaear a da byw eraill; tipio anghyfreithlon a gollwng sbwriel; ymosodiadau llosgi bwriadol a 'throsedd treftadaeth' -

targedu'r amgylchedd hanesyddol fel safleoedd archeolegol, eglwysi a chestyll drwy ddifrod troseddol, llosgi bwriadol, cloddiaid anghyfreithlon, chwilio am fetel yn anghyfreithlon (sef 'night-hawking'), neu ddifrod i gerbydau.

Dyweddodd Ceidwad y Comin, Mark Ward: “Mae'r Comin yn dirlun ysblennnydd - yn ysgyfaint gwyrdd hanfodol i'r cymoedd. Ag iddo 3,000 hectar, mae helaethrwydd maith y tir hwn yn chwarae ei ran yn y cyfoedd dŵr a charbon sy'n siapio a chefnogi ein bywydau bob dydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

“Mae parchu'r Comin, ei drysori a'i reoli mewn modd cynaliadwy i'w drosglwyddo





Mae manwerthwr dodrefn yn goresgyn Covid-19 wrth i'w fusnes dyfu a gwella

Mae busnes teuluol Chris Bourne yn gwerthu dodrefn ym Merthyr Tudful, ac nid yn unig y mae wedi llwyddo i oroesi her y Coronafeirws, ond mae hefyd wedi gallu dod drwyddo'n gryfach nag o'r blaen.

Mae Bourne Home Furniture wedi symud o'i leoliad blaenorol yn y farchnad dan do yng Nghanolfan Siopa St Tudful, i adeilad llawer mwy ar Ystad Ddiwydiannol Pant. Mae hefyd wedi buddsoddi mewn mwy o stoc ac wedi cynyddu cyflogau'r staff a roddwyd ar ffyrlo i

100%.

Llwyddodd Chris i wneud hyn gyda chymorth y Grant Cyfraddau Annomestig (NDR) gwerth £10,000 a gyflwynwyd yn sgil Covid-19 gan Lywodraeth Cymru yn gynharach yr wythnos hon. Agorwyd y warws newydd yn swyddogol gan Arweinydd Cyngor Bwrdeistref y Sir, y Cynghorydd Kevin O'Neill.

Yn wreiddiol, cyflogwyd Chris, 29 oed, fel is-gontractwr ar y rheilffyrdd. "Ar ôl blynyddoedd o weithio i ffwrdd ac ar batrymau shift

lletchwith, roeddwn i eisiau newid a threulio mwy o amser gartref gyda'r teulu, felly penderfynais i weithio ar fy liwt fy hun," meddai. "Fe wnes i arbed rhywfaint o arian a mynd amdani."

Dechreuodd ef a'i ddyweddi Shannon y busnes yn 2018 ac erbyn hyn, maen nhw'n cyflogi tri aelod arall o staff. "Maen nhw wedi'u rhoi ar ffyrlo yn ystod y cyfnod clo ac rydyn ni'n gobeithio'u croesawu nhw'n ôl i'r gwaith yn fuan.

"Fe wnaeth y grant NDR ein helpu ni i dalu'r staff a chynyddu'u cyflogau hyd at 100%, gan osgoi unrhyw anhawster i'w bywydau nhw a'u

teuluoedd yn ystod y cyfnod ansicr hwn."

Mae Bourne Home Furniture yn fusnes teuluol ym mhob ystyr o'r gair. Mae brawd Chris, sef Adam yn ddylunydd graffig ac yn gweithio ar wefan y cwmni, ac mae ei chwaer Kelly yn helpu trwy hysbysebu cynhyrchion ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol.

"Ers i ni gychwyn y busnes bron i ddwy flynedd yn ôl, rydyn ni wedi cael cefnogaeth barhaus gan Gyngor Merthyr trwy wahanol ddulliau a chan wahanol adrannau," meddai Chris.

"Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir wrth inni geisio dod o hyd i adeiladau mwy o faint ar ôl i'n stondin yn y farchnad fynd yn rhy fach i ni

yn sydyn. Mae agor yn y man lle'r ydyn ni nawr, gyda help a chefnogaeth y grant, wedi bod yn wych."

Y Cyngor. Kevin O'Neill yn agor Dodrefn Cartref Bourne



Hyb Cymorth Cynnar

Cynorthwyo teuluoedd i gael mynediad i'r cymorth cywir ar yr amser cywir.

Ydych chi'n deulu yn ardal Merthyr Tudful sydd â phlant rhwng 0 ac 18 oed?

Ydych chi'n gwybod ble y mae troi am gymorth?

Hoffech chi wybod rhagor am sefydliadau allai gynnig cymorth a chefnogaeth mewn meysydd fel:

- Tai
- Cyllid
- Addysg
- Iechyd a Lles
- Rhianta
- Gweithgareddau Cymunedol

Hoffech chi wybod pa wasanaethau sydd ar gael yn eich ardal leol?

Os hoffech, gall yr Hyb Cymorth Cynnar eich cynorthwyo chi a'ch teulu Rydym yn darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Hyb Cymorth Cynnar, Canolfan Dinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN Ffôn: 01685 725000 E-bost: EarlyHelp.Hub@merthyr.gov.uk

Alaw

Gweinyddes feithrin a mabwysiadwr

Nursery worker and adopter

Mae gan gymaint o bobl yn Merthyr Tudful yr hyn sydd ei angen i fod yn rhiant mabwysiadol gwych ac mae Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd eisiau clywed gennych.

Siaradwch â VVCadoption a #DarganfyddrRhiantSyddYnotTi.

adopt4vvc.org - 0800 023 064

Rabart yn edrych ymlaen i'r dyfodol wedi cyfnod tawel Coronavirus

Mae un o gwmnïau deunyddiau addurnio mwyaf llwyddiannus y DU ymysg un o'r 1,000 a mwy o fusnesau lleol sydd wedi derbyn cymorth gan y Cyngor yn ystod cyfnod y pandemig.

Mae Rabart Decorators' Merchants yn cyflogi 15 aelod o staff yn y brif swyddfa ar Ystad Ddiwydiannol Pant ond mae ganddynt yn ogystal, fwy na 50 aelod o staff yn ei wyth siop yn Ne Cymru a Gorllewin Lloegr.

Dywedodd Andrew Bush, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol fod pob un siop wedi gorffwrdd cau am gyfnod ac i hyn gael effaith

fawr ar drosiant wrth i werthiant ddisgyn rhwng 40 a 50% o'i gymharu â ffigurau'r llynedd.

Dywedodd Andrew, er i'r cwmni barhau i ddarparu deunyddiau, roedd yn hollbwysig fod y siopau'n ailagor, yn enwedig ym Merthyr Tudful sydd ag ardal fanwerthu cynllunwyr lle gall y cwsmer eistedd ac astudio cylchgronau dylunio mewnol, cardiau lliw, llyfrau papur wal a thrio potiau profi yn y siop.

Sicrhodd Rabart Grant Cyfraddau Busnes Llywodraeth Cymru, sydd werth £25,000 a olygodd na fu rhaid i'r busnes ddiswyddo'r un aelod o'r staff.

"Roedd Cyngor Merthyr yn wych a daeth yr arian i law yn gyflym dros ben," dywedodd. "Diolch i'r cyngor am fod mor effeithiol. Roedd yr arian yn y banc ymhen dyddiau."

Cyfaddeddodd Andrew ei fod yn bryderus ynghylch y dyfodol ond dywedodd ei fod yn teimlo'n gadarnhaol ar yr un pryd. "Mae pob busnes yn bryderus," ychwanegodd. "Mae llawer o ansicrwydd ymhobman ond rwy'n berson cadarnhaol. Bydd rhaid i ni arallgyfeirio a newid a gwneud pethau'n wahanol er mwyn sicrhau ein bod yn goroesi."

Achubwyd tylluan diolch i waith cyflym gan breswylwyr a staff

Cafwyd ymateb brys ddod gan breswylwyr a staff Wellbeing Merthyr a'r Cyngor pan welwyd Tylluan Frech wedi'i dal mewn lein bysgota ar yr ynys yn Llyn Parc Cyfarthfa.

Ar ôl i'r cerddwyr Andrea a Nigel Hulbert sylwi bod adain y dylluan wedi'i dal mewn weiar, fe lwyddon nhw i gael gafael ar staff y tir. Yna, aeth y staff mewn cwch achub a hwylio'n gyflym i'r ynys mewn ymgeis i achub yr aderyn ifanc oedd mewn trallod.

Fe'i rhyddhawyd o'r lein a'i chludo'n brydlon i feddygyfa Medivet yn Georgetown. Ar ôl cael ei harchwilio gan un o'r milfeddygon, cafodd ei rhoi yn y cynelau i orffwys, yn y gobaith o'i rhyddhau yn ôl i'w chynefin ymhen cwpl o diwrnodau.

Ceisiodd Andrea a Nigel gael gafael ar yr RSPCA, ond ni chawsant ateb. Felly, fe roesant bost ar ffesbwc yn gofyn am help. Fe wnaeth Colin Lewis (Codwr Sbwriel) roi gwybod i Julian Burns (y Prif Arddwr), Darren Williams (y Tirmon) a Pete Mason (Llafurwr). Yna, fe drefnodd Ian Woolston a Matthew Felton o Wellbeing Merthyr fynediad i'r cwch ac aeth Julian a Pete ati i achub yr aderyn.

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd: "Mae aelodau Cymdeithas Pysgota Merthyr Tudful yn gweithio'n galed i geisio diogelu'r amgylchedd a'r bywyd gwyllt yn

Llyn Cyfarthfa ac fe wnaethan nhw ymateb yn gyflym i'r digwyddiad anffodus a phrin hwn. "Fodd bynnag, rhaid i bysgotwyr gofio y dylen nhw waredu'u leiniau pysgota yn ddiogel. Hoffwn ddiolch i'n staff ni ac i staff yr Ymddiriedolaeth Hamdden am ymateb mor gyflym i achub bywyd yr aderyn truenus hwn. "Diolch yn anad neb i'n preswylwyr

gwyliadwrs Andrea a Nigel Hulbert am riportio'r digwyddiad ac am aros o gwmpas am ddwy awr i sicrhau bod y dylluan yn cael ei chludo i ddiogelwch. Mae gennym ni'r bobl fwyaf caredig yn byw yma ym Merthyr Tudful."



Helpwch ni i amddiffyn ein cymunedau rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn gofyn i bawb ym Merthyr Tudful - teulu, ffrindiau, cymdogion, gweithwyr post, gyrrwyr dosbarthu - weithredu fel llygaid a chlustiau ar gyfer ein plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwedd a rhybuddio eu tîm diogelu lleol ar 01685 725000 neu'r heddlu os ydyn nhw'n credu bod unrhyw un yn cael ei esgeuluso, yn profi camdriniaeth, neu mewn perygl o niwedd.

I gysylltu â gwasanaethau gofal cymdeithasol y tu allan i oriau swyddfa, ar benwythnosau a gwyliau banc, cysylltwch â Thîm Dyletswydd Brys Cwm Taf Morgannwg ar 01443 743665.

Os ydych chi'n amau bod rhywun mewn perygl uniongyrchol o niwedd, ffoniwch 999 a siaradwch â'r Heddlu.

I gael rhagor o wybodaeth am faterion diogelu, ewch i www.ctmsb.co.uk





Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn sicrhau mwy na £500,000 ar gyfer 'Prosiect Penderyn' Merthyr Tudful

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau dros hanner miliwn o bunnoedd ar gyfer Merthyr Tudful o Gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref.

Cafodd y gronfa sydd gwerth £25 miliwn ei lansio ym mis Ionawr er mwyn galluogi ceisiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ledled Lloegr a Chymru i ariannu mentrau sy'n mynd i'r afael â throsedd a rhwystru trosedd meddiangar a throseddau eraill sy'n cael gwir effaith ar y gymuned.

Gweithiodd y Comisiynydd a'i dim yn agos â CBSMT i ddynodi pethau fyddai'n gwneud gwir wahaniaeth i'r dref gan gynorthwyo'r heddlu a swyddogion y

cyngor i wella hyder y cyhoedd ac annog gweithgareddau yng nghanol y dref.

Mae amrywiaeth o fesurau yn cael eu defnyddio a Mike Ruddall, yr Arolygydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n arwain cam gweithredol y prosiect. Maent yn cynnwys gwella'r system camerau cylch cyfyng, goleuadau'r stryd, gosod gatiâu ar lonydd a chynllun marcio eiddo ar gyfer preswylwyr lleol.

Croesawodd Alun Michael, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y cyhoeddiad gan ddweud: "Mae hyn yn gyfle gwyblygu i'r Fferthyr Tudful ac yn newyddion arbennig i'r ardal. Rydym wedi derbyn cyfanswm o £513,410 a fydd yn cael ei fuddsoddi i osod gatiâu

ar lonydd, gwella goleuadau'r stryd a'r system camerau cylch cyfyng yn ogystal â gosod arwyddion newydd. Byddwn hefyd yn gwella ymgysylltiad cymunedol ac yn cynnal diwrnodau glanhau ac yn dosbarthu pamffledi i drigolion a busnesau lleol."

Dywedodd y Cyngorydd Kevin O'Neill, Arweinydd CBSMT: "Mae hyn yn newyddion gwyblygu ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac i drigolion Merthyr Tudful. Rydym wedi gwrrando ar bryderon ein preswylwyr ac wedi sicrhau arian a fydd yn ein galluogi i osod seilwaith cadarn yn ei le ac a fydd yn gwneud Merthyr Tudful yn dref mwy diogel i fyw ac i ymweld â hi."

Y Prif Arolygydd Naomi Drew, yr Arolygydd Mike Rudall, Rhingyll McCuicheon, a Cyngorwyr Tactegol Lleihau Trosedd Joy Nicholls a Michelle Farmer.



Prosiect 'y Dadeni' yn parhau i adfer ardal hanesyddol Potmorlais ym Merthyr Tudful

Mae prosiect diweddaraf rhaglen gwerth £2.1 miliwn i adfer rhai o adeiladau mwyaf hanesyddol Merthyr Tudful tra'n darparu swyddi a hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu i bobl leol wedi ei gwblhau.

Mae tafarn y Vulcan Inn o'r cyfnod Fictoraidd yn awr yn edrych fel ag yr oedd yn ystod yr 1800au wedi i'w nodweddion addurniedig cynnar a gollwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gael eu hadfer, a hynny yn sgil prosiect Dadenni Parhaus Treflun Pontmorlais y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Cafodd £215,600 ei wario ar y dafarn a chafodd buddsoddiad y Cyngor ei gyfateb gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CDLG.)

"Mae'r prosiect yn cynnal treflun unigryw rhan hynaf a phensaernïol

mwyaf pwysig canol y dref sy'n diogelu ac yn ailgyflwyno'r nodweddion sy'n gwneud pob adeilad yn arbennig," meddai'r Cyngorydd Geraint Thomas, Aelod o'r Cabinet ar gyfer Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd.

"Cafwyd gwaith adfer gofalus a defnyddiwyd dulliau a deunyddiau traddodiadol sydd i'w gweld mewn enghreifftiau eraill yn y dref sydd yn perthyn i gyfnod cynnar y datblygiad trefol."

Yn ystod y ddegawd ddiwethaf, mae cyfanswm o £5 miliwn wedi'i fuddsoddi yn yr ardal a chafwyd gwaith adfer ar 16 adeilad gan gynnwys Neuadd Dewi Sant sy'n adeilad Gradd II rhestredig, Redhouse Cymru, Canolfan Soar a chyn adeilad y YMCA. Yn gyffredinol, mae'r gwaith yn cynnwys ailosod wynebau

siop traddodiadol, ffenestri pren, gwaith rendro traddodiadol, gosod llechi naturiol ar y to, gwteri haearn bwrw a simneiau.

Credir fod tafarn y Vulcan Inn yn perthyn i'r cyfnod Fictoraidd cynnar gan ei bod yn ymddangos ar fap o'r 1850au. Mae adeilad o faint tebyg yn ymddangos ar fap OS o 1836 felly gallai rhan o'r adeilad presennol fod hyd yn oed yn hŷn.

Cwblhawyd y gwaith adfer gan gwmni adeiladu lleol, Murphy & Sons. Yn sgil partneriaeth rhwng y Cyngor a Grŵp Cenedlaethol Hyfforddiant Gwaith To Cymru i ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu traddodiadol, derbyniodd tri o gyflogai'r cwmni hyfforddiant mewn gwaith plwm.

YMGEISIWCH A'R
CYNLLYN ADSEFYDLU YR UE
CYN Y DYDDIAD CAU



Darganfodwch mwy a gwnewch gais nawr:
gov.uk/eusettlementscheme



O'r blaen...



Ar ôl...

MAE MODD
I UNRHYW
DDYN!

DDIODEF O GAM-DRIN DOMESTIG

MAE MODD I
UNRHYW DDYN...

- Cael ei niweidio'n gorffordl gan rywun agos.
- Cael ei reoli gan rywun agos.
- Teimlo'n unig ac ynysig.
- Teimlo'n anweledig ac wedi'i daweli.

Bydd un o
bob chwe dyn

yn dioddef gam-drin domestig
yn ystod eu hoes.

Mae dros **500,000** o
ddynion bob
blwyddyn yn dioddef
cam-drin ohereddol gan eu partner.

Mae un dyn
bob pythefnos yn
cael ei ladd
gan barner presennol
neu gyn-barner.



MAE MODD I
UNRHYW
DDYN...

Gael Cymorth

Os ydych chi'n dioddef o
gam-drin domestig ac anghen
rhwyro i siarad ag ef am gymorth
ac arweiniad, cysylltwch â ni.

Rhondda Cynon Taf

Uned Ddiogelwch Ffoniog Prifdd

cyhoeddus-cynon-taf.gov.uk

01443 434130

Merthyr Tudful

Taf i J. Mac@smc.org.uk

01656 353444

Ffoniwch/Anfonwch neges ddiogel -

07539 170398

Pen-y-bont ar Ogwr

112@ealandvis.org.uk

01656 756139

Byw Heb Ddim (Juniell Gymerth 24 awg)

0800 60 10 800

DYDYCH CHILDDIM AR

EICH PEN EICH HUN.